Nodiadau Eglurhaol

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn yn Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn lansio ymgynghoriad ar gynlluniau i gyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus sy'n ymwneud â mesurau rheoli cŵn ar dir cyhoeddus.

Mae CSFf yn bwriadu cyflwyno'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus o dan bwerau a gyflwynwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol a Phlismona 2014. Bydd y gorchymyn yn disodli'r gorchymyn rheoli cŵn presennol sy'n ymwneud â baw cŵn.

O gychwyn mis Hydref 2017, bydd Gorchymyn Gwarchod mannau Cyhoeddus yn weithredol ledled Sir y Fflint a bydd yn disodli'r gorchymyn presennol i greu ymagwedd sydd yn fwy cynhwysfawr a chyson wrth ymdrin â materion megis baw cŵn, cadw cŵn ar dennyn, sicrhau bod cŵn yn cael eu cadw dan reolaeth a gwahardd cŵn o lefydd penodol.

Pam cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus?

Mae yna garfan fechan o berchnogion cŵn sydd ddim yn ymddwyn mewn modd cyfrifol pan fyddant yn mynd â'u cŵn am dro yn y gymuned, ac rydym wedi derbyn cwynion am faw cŵn ac ymddygiad niwsans pan nad yw cŵn yn cael eu cadw dan reolaeth.

Fe fydd y gorchymyn rheoli cŵn presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2017 a bydd y gorchymyn arfaethedig yn ddull i'r awdurdod ymdrin â pherchnogion cŵn anghyfrifol yn y gymuned, tra'n annog diwylliant o berchnogaeth cŵn cyfrifol.

Fe fydd y gorchymyn yn arwain at nifer o fanteision i helpu i greu cymunedau glanach a thaclusach yn Sir y Fflint, gan arwain at amgylchedd dymunol, a sicrhau ardaloedd chwaraeon a chwarae glanach i blant ac oedolion a lleihau'r tebygolrwydd o broblemau iechyd difrifol sy'n gysylltiedig â baw cŵn. Fe fydd y gorchymyn yn mynd ati i hyrwyddo perchnogaeth cŵn cyfrifol drwy gydymffurfiaeth resymol a chymesur.

Bwriad y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yw

- Sicrhau bod perchnogion cŵn yn codi baw ci o bob tir cyhoeddus.
- Sicrhau bod cŵn yn cael eu rhoi ar dennyn pan roddir cyfarwyddyd iddynt wneud hynny mewn ardaloedd cyhoeddus.
- Sicrhau bod perchnogion cŵn yn cario deunydd gyda nhw i bigo gwastraff ci i fyny o'r llawr.
- ***Gwahardd*** *cŵn o:*

  Ardaloedd chwarae o fewn pob maes chwaraeon a farciwyd

  Ardaloedd chwarae mewn Ardaloedd Chwaraeon Dynodedig cyhoeddus (Lawntiau Bowlio, cyrtiau tenis, Llecyn Gemau Amlddefnydd)

  Ardaloedd chwarae plant caeedig

  Tir ysgol
- Cŵn i gael eu cadw ar dennyn mewn Mynwentydd

Beth fydd y gorchymyn arfaethedig yn ei olygu?

Yn ôl y Gorchymyn, fe fydd rhaid i'r unigolyn sydd yng ngofal y ci bigo baw'r ci i fyny'n syth os bydd yn baeddu ar unrhyw dir cyhoeddus lle mae'r gorchymyn yn weithredol. Rhaid i'r unigolyn sydd yng ngofal y ci hefyd allu pigo unrhyw faw y bydd y ci yn ei adael os gofynnir iddynt wneud hynny gan Swyddog Gorfodi.

Ar ba dir y bydd hyn yn berthnasol?

Bydd y gofyniad i lanhau ar ôl eich ci yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn Sir y Fflint. Ystyr man cyhoeddus ydi unrhyw le awyr agored y gall y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd ei ddefnyddio, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu yn dilyn caniatâd penodol neu ymhlyg.

Ydyw'n berthnasol i dir sydd ddim yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint?

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn ymgynghori â phob cyngor cymuned ac ysgol yn y sir er mwyn cael caniatâd i orfodi'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar dir y maent yn eu rheoli.

Ni fydd gorfodi'n digwydd ar dir preifat, ond fe all yn y dyfodol, os oes digon o gwynion ac ar ôl ymgynghori gyda'r perchennog tir perthnasol.

Ydi Hawliau Tramwy wedi'u cynnwys?

Ydi, mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu cynnwys fel tir sydd yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddynt.

Pa gamau allaf i eu cymryd i sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'r Gorchymyn?

Pan fyddwch chi'n mynd â'ch ci am dro, eich cyfrifoldeb chi fydd gwylio eich ci drwy'r amser a sicrhau eich bod yn glanhau ar ei ôl. Nid yw dadlau nad oeddech yn ymwybodol eu bod wedi baeddu, neu heb ddull priodol o lanhau'r baw yn esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio â'r gorchymyn.

Fe fyddem yn eich cynghori i gymryd digon o ddeunyddiau gyda chi i glirio unrhyw faw y mae'ch ci wedi ei adael.

Lle ddylwn i daflu baw ci?

Os bydd eich ci yn baeddu ar dir cyhoeddus, gallwch daflu'r baw ci mewn bag mewn i unrhyw fin sbwriel **neu** fin gwastraff ci yn unig Cyngor Sir y Fflint.

A fydd yna unrhyw eithriadu ar gyfer unigolion sydd â nodweddion a ddiogelir?

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau bod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb, a bydd yn llenwi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb cyn y bydd unrhyw orchymyn cael ei orfodi. Dylai unrhyw eithriadau ar gyfer unigolion gyda nodweddion a ddiogelir gael eu cynnwys yn y gorchymyn terfynol.

Gwahardd Cŵn

Ardaloedd chwarae plant caeedig

Byddai'r gorchymyn arfaethedig yn gwahardd cŵn o bob ardal chwarae plant caeedig yn yr awyr agored yn Sir y Fflint, er mwyn atal baw cŵn ac i atal cŵn rhag bod allan o reolaeth neu o ddychryn plant. Byddai arwyddion yn cael eu rhoi i fyny mewn ardaloedd o'r fath er mwyn hysbysu'r cyhoedd bod cŵn wedi cael eu gwahardd.

Beth yw ardal chwarae i blant?

Ardal chwarae i blant, ydi ardaloedd caeedig sydd wedi'u neilltuo i blant chwarae ac mae'n cynnwys offer chwarae megis siglenni, llithrennau, fframiau dringo a chyfarpar tebyg.

Yn lle y mae'r gorchymyn yn weithredol?

Byddai'r gorchymyn yn weithredol yn unig mewn ardaloedd chwarae plant sydd wedi'u hamgáu ar bob ochr gan ffensys, giatiau, waliau neu strwythurau eraill er mwyn marcio ffin yr ardal chwarae. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl adnabod maint yr ardal lle na chaniateir cŵn.

Os oes yna ardal chwarae i blant yn eich parc lleol sydd wedi'i ffensio i ffwrdd o weddill y parc, ni fyddai gan gŵn hawl i fynd mewn i'r ardal chwarae gaeedig, ond ni fyddai'n eich atal rhag cymryd eich ci i weddill y parc.

Pam fod y Cyngor eisiau gwahardd cŵn o ardaloedd chwarae plant caeedig?

Mae'r cyngor yn credu y dylai plant fod yn rhydd i chwarae ar yr offer sydd wedi'u darparu yn yr ardaloedd hyn heb orfod poeni am sathru neu ddod i gysylltiad gyda baw ac wrin cŵn. Gall cŵn sy'n cael eu cymryd i ardaloedd chwarae plant fod yn ymosodol os ydynt yn cael eu dychryn. Mae rhai plant ofn cŵn.

Tir ysgol

Pam ddylai cŵn gael eu gwahardd o bob eiddo a thir sy'n eiddo i Awdurdod Addysg Cyngor Sir y Fflint?

Mae'n rhaid i dir ysgol fod yn ardaloedd diogel i blant a myfyrwyr eu mynychu. Mae'r lleoliadau yn darparu ardaloedd glaswellt i blant chwarae arnynt a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Ar adegau, mae perchnogion difeddwl yn caniatáu i'w cŵn faeddu ar dir ysgol a allai rhoi pobl mewn perygl o ddal afiechyd.

Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda phob ysgol a lleoliad lle byddai'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus mewn grym a lle byddai arwyddion priodol yn cael eu gosod.

Beth sy'n digwydd os bydd llwybr cyhoeddus yn rhedeg drwy dir yr ysgol?

Caniateir i chi fynd â'ch ci am dro dan reolaeth ar lwybr troed cyhoeddus sy'n rhedeg drwy dir addysgiadol. Rhaid i'r ci fod dan reolaeth ar y llwybr troed drwy'r amser.

A oes rhaid i'r llwybr fod yn Llwybr Troed Cyhoeddus neu all fod yn unrhyw lwybr?

Rhaid i'r llwybr fod yn llwybr troed cyhoeddus gyda hawl tramwy gyhoeddus.

A oes modd mynd â chi ar dir ysgol pan nad yw'r plant yn yr ysgol?

Nag oes, bydd y gwaharddiad yn weithredol bob amser.

Caeau chwaraeon wedi'u marcio

Mae'r gorchymyn yn cynnig gwahardd cŵn o ardaloedd chwarae caeau chwaraeon wedi'u marcio. Caiff yr ardaloedd eu defnyddio gan dimau chwaraeon sydd yn gorfod gwirio'r caeau'n aml am faw cŵn cyn chwarae gêm oherwydd perchnogion cŵn difeddwl.

A oes gen i hawl i gymryd fy nghi i gae chwarae sydd yn cynnwys cae chwaraeon wedi'i farcio?

Oes, yn yr ardaloedd o amgylch y cae chwaraeon wedi'i farcio, caniateir i gŵn fod yno ac fe anogir eu bod yn cael ymarfer corff, dim ond o'r ardal chwarae y bydd y cŵn yn cael eu gwahardd.

Ar ba dir y bydd hyn yn berthnasol?

Bydd y rhan hon o'r gorchymyn yn berthnasol i bob cae chwarae cyhoeddus yn Sir y Fflint. Ar ôl ymgynghori gyda'r perchennog tir perthnasol, fe allai hyn gynnwys y safleoedd hynny sydd wedi'i rheoli gan Gynghorau Cymuned ac o fewn tir ysgolion hefyd. Byddai arwyddion yn cael eu gosod ym mhob safle lle mae'r gwaharddiadau yn weithredol.

Ardaloedd Chwaraeon Dynodedig

Rhaid i'r un materion ar gyfer gwahardd cŵn fod yn weithredol. Mae gwahardd cŵn o arwynebedd chwarae lawntiau bowliau a chyrtiau tenis yn siarad drosto'i hun. Byddai cŵn yn cael eu caniatáu yn yr ardaloedd o'u hamgylch.

Llecyn Gemau Aml-ddefnydd

Pam ddylai cŵn gael eu gwahardd o'r ardaloedd hyn?

Mae'r ardaloedd hyn wedi'u neilltuo'n benodol i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac maent yn ardaloedd lle na fyddai gan gŵn bwrpas.

<u>Cŵn ar Dennyn trwy Gyfarwyddyd</u>

Beth mae hynny'n ei olygu?

Byddai'r rhan hon o'r gorchymyn yn caniatáu i swyddogion gorfodi CSFf neu swyddogion gorfodi dan gontract i roi cyfarwyddyd yn gofyn i unigolyn sydd yng ngofal y ci i'w roi ar dennyn.

Pryd y gellir gofyn i mi roi fy nghi ar dennyn?

Yr unig adeg y byddai gofyn i chi roi ci ar dennyn yw pan fyddai swyddog awdurdodedig yn credu bod cyfyngiad o'r fath yn angenrheidiol i atal niwsans, neu os yw ymddygiad y ci yn debygol o achosi anfodlonrwydd neu aflonyddwch i unigolyn arall, neu yn debygol o beryglu diogelwch unrhyw unigolyn neu ddefnyddiwr ffordd.

Ni fydd yn rhaid i chi roi eich ci ar dennyn os nad yw'n achosi neu'n debygol o achosi niwsans neu anfodlonrwydd i bobl eraill.

Pam fod y Cyngor eisiau gwneud hyn?

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y mwyafrif o berchnogion cŵn yn rai cyfrifol ac yn cadw eu cŵn dan reolaeth tra'u bod ar dir cyhoeddus. Serch hynny, gall y cŵn sydd ddim yn cael eu goruchwylio'n iawn a'u cadw dan reolaeth achosi niwsans, ac ar adegau, gallant anafu aelodau'r cyhoedd ac anifeiliaid eraill.

Bydd meddu ar y grym i ofyn i rywun roi eu ci ar dennyn pan fyddant yn achosi niwsans yn declyn effeithiol i Gyngor Sir y Fflint i atal problemau o'r fath.

Ar ba dir y bydd hyn yn berthnasol?

Bydd y rhan hon o'r gorchymyn yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn Sir y Fflint. At y dibenion hyn, ystyr 'man cyhoeddus' ydi unrhyw le yn yr awyr agored y gall y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd ei ddefnyddio, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg.

<u>Cŵn ar dennyn</u>

Mynwentydd

Y disgwyliad yw bod *rhaid* i gŵn fod ar dennyn mewn mynwent. Gallai'r goblygiadau o adael i gŵn grwydro arwain at gŵn yn troethi neu'n ysgarthu ar feddi gan achosi amgylchedd amhleserus mewn ardal sensitif iawn. Fe anogir perchnogaeth cŵn cyfrifol mewn mynwentydd gan fod nifer o bobl yn dymuno cymryd eu cŵn gyda nhw pan fyddant yn ymweld â beddi eu hanwyliaid.

Dull o Gasglu Baw Cŵn

Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu ei bod yn rhesymol i ddisgwyl bod rhywun sy'n mynd â'u ci am dro yn cario cynhwysydd i bigo baw ci i fyny. Mae'r mwyafrif helaeth o bobl sy'n mynd â'u cŵn am dro yn berchnogion cyfrifol ac yn gwneud hyn yn barod.

Fe all swyddogion awdurdodedig ofyn i bobl sy'n mynd â'u cŵn am dro os oes ganddynt ddull o bigo unrhyw faw ci i fyny. Byddai hyn yn sicrhau y gall baw ci gael ei glirio o'r ardal gyhoeddus. Os nad yw unigolyn yn gallu dangos fod ganddynt ddull o'i gasglu, yna rhaid cymryd yn ganiataol na fyddai'r baw yn cael ei glirio a byddai unrhyw wastraff yn cael ei adael lle mae ar y llawr. Os na fyddai gan unigolyn ddull o bigo'r baw i fyny, byddent yn derbyn Rhybudd Cosb Benodedig.

Pan fydd Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei roi, byddai swyddog gorfodi yn rhoi rholyn o 'fagiau baw' i'r aelod cyhoedd er mwyn i'r unigolyn hwnnw gasglu eu gwastraff os oes angen.

<u>Gorfodaeth</u>

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n cydymffurfio ag unrhyw ran o'r Gorchymyn?

Os na fydd yr unigolyn sydd yng ngofal ci yn cydymffurfio â gofynion y gorchymyn, fe fyddent yn cyflawni trosedd oni bai fod ganddynt ganiatâd gan berchennog, neu feddiannwr neu'r person yng ngofal y tir i beidio â chydymffurfio â'r gorchymyn, neu fod ganddynt reswm rhesymol dros beidio â chydymffurfio, neu eu bod yn cael eu heithrio o'r gorchymyn, megis unrhyw eithriad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Rhaid cyflwyno digon o dystiolaeth i brofi bod trosedd wedi digwydd y tu hwnt i amheuaeth resymol cyn y gellir gweithredu.

Allaf i gael Rhybudd Cosb Benodedig?

Gallwch, gellir rhoi rhybudd cosb benodedig i unigolyn sydd yn torri'r gorchymyn hwn, gan gynnig cyfle iddynt ddileu eu hatebolrwydd i gael eu herlyn drwy dalu dirwy o £75.

Erbyn pryd y mae angen talu'r gosb benodedig?

Rhaid talu'r ddirwy o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y caiff y tocyn ei roi.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n talu fy nghosb benodedig?

Os na fyddwch chi'n talu'r rhybudd cosb benodedig o fewn y cyfnod a ganiateir, mae'n debygol y byddwch chi'n cael eich erlyn yn y llys ynadon.

Beth yw'r ddirwy uchaf am dorri'r gorchymyn?

Mae person a geir yn euog o'r tramgwydd yn y llys ynadon yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar raddfa safonol y Llys (£1000 ar hyn o bryd).

Rhaid i'r amgylchiadau basio'r cod tystiolaethol llawn a rhaid iddo fod er budd y cyhoedd cyn y caiff Rhybudd Cosb Benodedig ei roi neu cyn erlyn.

Pwy sydd yn cael ei ystyried yng ngofal y ci?

Ystyrir mai'r unigolyn sydd â'r ci yn eu meddiant fydd yng ngofal y ci pan fydd y drosedd yn cael ei chyflawni. Nid yw o reidrwydd yn golygu mai'r unigolyn hwnnw yw perchennog y ci.

Mae hyn yn golygu os bydd eich ci yn ysgarthu mewn man cyhoeddus, yn crwydro mewn i ardal chwarae i blant, ffin cae chwaraeon wedi'i farcio neu ardal chwaraeon dynodedig neu'n torri'r gorchymyn mewn unrhyw fodd, y person sydd yng ngofal y ci ar yr adeg benodol honno sydd yn gyfrifol. Os ydych chi wedi gadael i rywun arall fynd â'ch ci am dro, nhw fydd yng ngofal y ci tra byddant allan.

Pwy fydd yn gorfodi'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus?

Caiff y gorchymyn ei orfodi gan unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gyngor Sir y Fflint, gan gynnwys cwmnïau gorfodi dan gontract.

Sut fydd y cyhoedd yn gwybod bod gorchymyn yn weithredol mewn lleoliad penodol?

Fe fydd yna ddigon o arwyddion wedi'u marcio'n glir mewn lleoliadau lle fydd y gorchymyn mewn grym.

Am faint fydd y gorchymyn yn para?

Bydd y gorchymyn yn para am gyfnod o 3 blynedd, ond fe all y Cyngor ei ymestyn os ydynt yn credu fod angen. Os bydd y gorchymyn yn cael ei amrywio neu ei ymestyn mewn unrhyw ffordd, bydd cyfnod o ymgynghori'n cael ei gynnal i geisio barn y cyhoedd ac unrhyw fudd-ddeiliaid perthnasol.

Pam fod y Gorchymyn mewn grym?

Credir bod y Gorchymyn Gwarchod y Cyhoedd arfaethedig yn ymateb teg i ymdrin mewn modd mesuradwy â'r problemau presennol sydd yn y Sir. Mae gorchymyn o'r fath yn angenrheidiol ac yn gymesur o ran y rheolau y mae'n eu gosod ac nid yw wedi'i ddylunio i wahaniaethau yn erbyn cŵn na pherchnogion cŵn.